**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif.3**
**Legislation Committee No.3**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

11 Rhagfyr 2009

Annwyl Syr / Madam,

**Ymgynghoriad – Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 – *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth)* 2010 ynghylch trafnidiaeth dysgwyr a theithio rhatach**

Ar 7 Rhagfyr 2009, gosododd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010 ("y Mesur arfaethedig") a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad, yn unol â Rheolau Sefydlog 22.13 a 22.14.

Ar ôl hynny, cyfeiriwyd y Mesur arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 i'w ystyried yn fanwl. Yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 20098, cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl a ganlyn—

Ystyried:

- egwyddorion cyffredinol y Gorchymyn arfaethedig ac a ddylid trosglwyddo'r cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes a nodir ym "*Mater 10.*2" i'r Cynulliad; a
- telerau'r Gorchymyn arfaethedig, ac yn enwedig a ydynt wedi eu diffinio'n rhy eang neu'n rhy gul.

Prif ddiben y Pwyllgor yw ystyried a ddylai'r Cynulliad gael y pŵer, mewn egwyddor, i ddeddfu drwy Fesur yn y meysydd a nodir yn y Gorchymyn arfaethedig, ee trafnidiaeth i ddysgwyr a chonsesiynau teithio.

Fodd bynnag, nid yw o fewn cylch gwaith y Pwyllgor i ystyried y ffordd benodol y dylid gweithredu'r pŵer, os caiff ei drosglwyddo. Oherwydd hynny, bydd y Pwyllgor yn osgoi cynnal trafodaethau manwl ynghylch Mesurau arfaethedig yn y dyfodol, adolygu polisïau presennol neu ail-wneud gwaith a wnaed eisoes gan bwyllgorau pwnc.

**Ffon / Tel: 029 2089 8041**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol yn **Atodiad A.** Gellir cael fersiynau electronig o'r dogfennau hyn yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-legislative-competence-orders/bus-legislation-lco-2009-tr-2.htm

Ymhellach, gellir gweld y canllawiau mewn perthynas â Gorchmynion a'r broses ddeddfwriaethol yma:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance.htm

*Mae copïau caled o'r canllawiau ar gael ar gais gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth.*

Fe'ch gwahoddir i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor i'w helpu gyda'i waith. Wrth baratoi'r cyflwyniadau hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymdrin â'r materion a ganlyn:

1. Beth yw eich barn ynghylch yr egwyddor gyffredinol y dylid trosglwyddo'r cymhwysedd cyffredinol yn y meysydd a nodir ym Mater 10.2 i'r Cynulliad Cenedlaethol?

2. Beth yw eich barn ynghylch telerau'r Gorchymyn arfaethedig? Er enghraifft, a ydynt wedi'u llunio'n rhy gul neu'n rhy eang?

3. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ynghylch y Gorchymyn arfaethedig?

4. A ydych yn credu y byddai'r gwelliannau i'r eithriadau cyffredinol i'r Materion, y cyfeirir atynt ar dudalen 2 o'r Gorchymyn arfaethedig ac sy'n ymwneud â Maes 10, yn effeithio ar unrhyw Fesurau arfaethedig yn y dyfodol a gyflwynir o dan Fater 10.2? Os ydych yn credu hynny, eglurwch pam.

Dylech nodi bod y Gorchymyn arfaethedig yn ymwneud â dau faes arbennig o bolisi trafnidiaeth, sef gwella diogelwch i ddysgwyr ar eu taith i'r ysgol neu i'r lleoliad lle maent yn cael eu dysgu neu'u hyfforddi ac, yn ail, teithio rhatach. Felly, efallai y byddwch yn dymuno gwneud sylwadau ar y meysydd yn y Gorchymyn sy'n berthnasol i chi yn unig.

Os ydych yn dymuno cyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'r cyflwyniad i legislationoffice@wales.gsi.gov.uk gan roi'r teitl *Ymgynghoriad yr LCO Trafnidiaeth* arno. Fel arall, anfonwch gopi caled at

**Ffon / Tel: 029 2089 8041**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

Ruth Hatton, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd CF99 1NA.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau yw dydd Gwener 13 Ionawr 2010. Ni fydd yn bosibl ystyried y cyflwyniadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn. Fodd bynnag, dylech anfon eich cyflwyniadau cyn gynted ag sy'n gyfleus cyn y dyddiad hwn er mwyn galluogi'r Pwyllgor i barhau â'i waith o graffu ar y Gorchymyn arfaethedig.**

Wrth baratoi eich cyflwyniadau, cofiwch ystyried y materion a ganlyn:

- Dylai eich ymateb fod mor gryno â phosibl. Defnyddiwch y teitl uchod ar gyfer eich ymateb.
- Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi'r ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus fel bod modd i'r cyhoedd graffu arnynt ac fel bod modd eu darllen a'u trafod mewn cyfarfodydd Pwyllgor. **Os nad ydych am i'ch ymateb neu'ch enw gael ei gyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny ar ddiwedd eich cyflwyniad.**
- Nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad, neu fel unigolyn.
- Nodwch a fyddai gennych ddiddordeb mewn rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y Gorchymyn arfaethedig neu'r broses ddeddfu, cysylltwch a'r Clerc, Fay Bowen (ffôn: 029 2089 8041) neu Ruth Hatton, y Dirprwy Glerc (ffôn: 029 2089 8019).

**Dr. Dai Lloyd AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Ffon / Tel: 029 2089 8041**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**